



Chwefror 2015

Gyda dim ond 3 mis ar ôl rydym yn brysur yn dadansoddi ac yn ysgrifennu canlyniadau'r prosiect. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn rhyddhau ein hadroddiadau felly cadwch lygad ar ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau ar gyfer y rhain. Diolch i bawb sydd wedi ein helpu i gasglu'r data hwn.



Cragen Aberffro – *Pecten maximus*; King scallop

Rydym yn symud ymlaen gyda dadansoddiadau o'r data ffisegol a biolegol a gasglwyd yn ystod yr arolygon o'r arbrawf dwysedd pysgota (ym mis Mawrth, Mai a Medi 2014). Rydym hefyd yn dechrau cwrdd unwaith eto ag aelodau o'r diwydiant pysgota, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae hyn er mwyn trafod y ffordd ymlaen ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn bylchog ym Mae Ceredigion trwy rannu'r dystiolaeth rydym wedi'i gasglu hyd yn hyn. Y mis hwn, fe wnaethom hefyd gymryd rhan yn y gweithdy cregyn bylchog GAP2 yn Ffrainc lle buom yn cyfranogi mewn rhai trafodaethau diddorol iawn. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar reolaeth y bysgodfa cregyn bylchog yn y Sianel, yn trafod sut i ddiwallu anghenion y diwydiant yn Ffrainc a'r Deyrnas Unedig yn ogystal â diffinio opsiynau a thargedau monitro rheolaeth gynaliadwy. Bydd adroddiad ar gael ar wefan GAP (<http://gap2.eu/>).



Cramenogion

Gorgimwch - *Palaemon serratus*; Prawn

- Fe wnaeth seibiannau byr yn y tywydd ganiatáu i swyddogion y prosiect gasglu data ar y môr, ar fwrdd cychod pysgota masnachol ym Mae Ceredigion, gan edrych ar CPUE, cyfraddau sgil ddaliadau a gallu i oroesi y rhywogaethau cwota ar ôl eu rhyddhau
- Bu aelodau o Gymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion (CBFA) yn trafod effeithiau economaidd posibl gwahanol fesurau rheoli mewn holiadur a gynhaliwyd y mis hwn - bydd eu cyfraniad yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cynigion rheoli yn dilyn cwblhau'r prosiect.
- Mae dogfennaeth cyn asesu y Cyngor Stiwardiaeth Morol (MSC) wedi dechrau cael ei roi at ei gilydd a bydd yn rhoi gwerthusiad clir o'r bysgodfa corgimwch yn erbyn meini prawf cynladwyedd y Cyngor Stiwardiaeth Morol (MSC).

- Mae'r samplau a gasglwyd yn ystod haf 2014 yn dal i gael eu prosesu yn y labordai ym Mhorthaethwy. Dengys dadansoddiad rhagarweiniol batrymau mynegai rhai ifanc mewn cynefinoedd arfordirol.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â swyddogion y prosiect (sydd wedi eu lleoli yn Aberystwyth):
Jack Emmerson j.emmerson@bangor.ac.uk a Georgia Robson g.robson@bangor.ac.uk

Y cranc coch – *Cancer pagurus*; Brown crab

Mae astudiaeth maint *Cancer pagurus* pan fo'n aeddfed yn dal i fynd rhagddo!

Trafodwyd yr astudiaeth hon mewn cylchlythyrau blaenorol a nawr mae'n mynd rhagddi'n dda. Casglwyd crancod o amgylch arfordir Cymru a byddwn yn eu prosesu y mis hwn. Bydd y samplau hyn yn cyfrannu at yr astudiaeth ehangach o amrywiadau rhanbarthol o faint *Cancer pagurus* pan fyddant yn aeddfed a'u cymharu â samplau o Iwerddon, Ynys Manaw, Lloegr a'r Alban. Mae'r cydweithio hwn ar raddfa fawr yn cael ei arwain gan dîm pysgodfeydd Bangor, ond yn gobeithio bod o fudd i'r holl bysgodfeydd crancod gyda gwell rheolaeth ar sail gwybodaeth.

Yn gynharach y mis hwn roeddem ym Mhrifysgol Hull yn Swydd Efrog yn gweithio gyda Mike Roach sy'n gwneud PhD ar y cimwch (European lobster) ac mae hefyd yn gweithio gyda Grŵp Diwydiant Pysgota Holderness (HFIG). Roedd HFIG yn hynod o hael gyda'u hamser ac adnoddau i drefnu crancod ar gyfer cydweithio ar eu maint pan fyddant yn aeddfed. Ar wahân i helpu i greu darlun ledled y Deyrnas Unedig o faint crancod pan fyddant yn aeddfed, bydd HFIG hefyd yn defnyddio'r data o'u hardal ar gyfer rheoli stociau lleol o bysgodfeydd yn well.



Mike Roach (Prifysgol Hull / HFIG) a Harriet Salomonsen (Prifysgol Bangor) yn dyrannu crancod Bridlington ar gyfer yr astudiaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar ddwy astudiaeth *C. pagurus* o Gymru: maint pan fônt yn aeddfed a ffrwythlondeb. Dymunwn wybod sut mae nifer ac ansawdd yr wyau yn newid gyda maint a chyflwr corff y cranc. I wneud hyn, rydym yn amcangyfrif cyfanswm nifer yr wyau a chynnal dadansoddiad o'r elfennau. Rydym hefyd yn cymryd llawer o fesuriadau o'r corff a chael mynegeion gonadau a hepatopancreas (chwarren dreulio).



(Chwith) Cranc hyfryd ond nid yw'r wyneb yn hardd iawn; (Dde) Julia Pantin yn mesur cranc 220mm o led o samplau gogledd Cymru

Am fwy o wybodaeth am brosiectau *Cancer pagurus* cysylltwch â Jodie Haig ar:

j.haig@bangor.ac.uk



Pysgod adeiniog

Draenogiaid y môr – *Dicentrarchus labrax*; Sea bass

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal dadansoddiad o'r holl ddata a gasglwyd yn ystod 2013 a 2014. Bydd hyn yn rhoi darlun o ddynmeg poblogaeth stoc draenogiaid y môr o amgylch Cymru. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad gyda'r holl ganlyniadau a fydd ar gael erbyn diwedd y prosiect

Llawer o ddiolch i'r holl bysgotwyr a'r proseswyr wnaeth ein helpu drwy ddarparu samplau!



Holiadur economaidd



Buom yn gweithio'n galed i ddadansoddi'r cyfweiliadau economaidd yr ydym yn eu cynnal gyda physgotwyr ar draws Cymru. Roedd y cyfweiliadau yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ni am berfformiad economaidd llynges Cymru a deinameg y llynges. Cyflwynir y canlyniadau rhagarweiniol o'r dadansoddiad hwn yng Nghynhadledd XXII o Gymdeithas Ewropeaidd Economegwyr Pysgodfeydd - EAFE yn Salerno (28-30 Ebrill, 2015). Teitl y cyflwyniad yw: *"Does profit maximisation drive the choice of fishing métier in Welsh fisheries?"* Bydd y sleidiau ar gael ar ein tudalen gwe yn y dyfodol, ac rydym yn gweithio ar adroddiad a fydd ar gael erbyn diwedd y prosiect.

Holiadur Gwybodaeth Pysgotwyr

Mae'r adroddiad ar Holiadur Gwybodaeth Pysgotwyr bron yn gyflawn. Mae chwedeg chwech o bysgotwyr wedi eu cyfweld ledled Cymru. Mae Tabl 1 yn cyflwyno amrywiaeth gofodol y cyfweiliadau a gwblhawyd.

Tabl 1: Nifer y pysgotwyr, a'r cychod, a gyfwelwyd yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru.

Rhanbarth	Nifer y pysgotwyr	Nifer y cychod
Gogledd	29	30
Canolbarth	11	13
De	26	33
Cyfanswm	66	76

Enghreifftiau o'r canlyniadau o'r adroddiad:

Newidiadau mewn Niferoedd a Maint Rhywogaethau

Ledled Cymru, gwelwyd newidiadau mewn niferoedd a maint rhywogaethau dros y blynyddoedd (gweler Ffigur 1 isod).

Yng Ngogledd Cymru:


- Niferoedd corgimwch yn amrywio.
- Ni fu newid ym maint y crancod coch, gorgimychiaid, y cregyn moch mwyaf a'r draenogiaid môr.

Yng Nghanolbarth Cymru:

- Mae draenogiad y môr wedi dod yn fwy niferus a'r cranc coch yn llai niferus.
- Mae draenogiaid môr wedi cynyddu o ran maint, ac ni fu unrhyw newid ym maint y cranc coch, cimychiaid, corgimychiaid a'r gragen foch fwyaf.

Yng Ne Cymru:


- Bu gostyngiad yn niferoedd y cranc heglog a draenogiad môr, amrywiadau yn niferoedd y gorgimychiaid, a dim newid yn niferoedd y gragen foch fwyaf.
- Mae maint y draenogiad môr wedi gostwng, ond ni fu unrhyw newid ym maint y gragen foch fwyaf.



Ffigur 1: Newid mewn niferoedd a maint rhywogaethau a welwyd gan bysgotwyr yng Ngogledd Cymru (y ddau ffigur uchaf), Canolbarth Cymru (y ddau ffigur canol) a De Cymru (y ddau ffigur isaf).

Gweithgaredd Pysgota Tymhorol


Mae pysgodfeydd crancod coch, cimychiaid a'r gragen foch fwyaf yn gweithredu gydol y flwyddyn, mae pysgodfeydd corgimwch a chregyn Aberffro yn gweithredu'n y gaeaf ac mae pysgodfeydd crancod heglog a draenogiaid môr yn gweithredu'n bennaf yn yr haf (Ffigur 2). Mae'r newid tymhorol hwn yn caniatáu i bysgotwyr gynaeafu amrywiaeth o rywogaethau drwy gydol y flwyddyn; roedd y pysgotwyr a gafodd eu cyfweld yn cynaeafu cyfartaledd o dair rhywogaeth.



Ffigur 2: Y gweithgaredd pysgota blynyddol cyfartalog ar gyfer saith pysgodfa yn nyfroedd Cymru.

Gwrthdaro mewn Defnydd Morol

Mae pysgotwyr yn profi amrywiaeth o wrthdaro â defnyddwyr morol eraill. Y prif wrthdaro i bysgotwyr â gêr symudol yw deddfwriaeth cadwraeth. Mae pysgotwyr â gêr sefydlog yn dod ar draws llawer mwy o amrywiaeth o wrthdaro. Mae'r gwrthdaro mwyaf cyffredin i bysgotwyr â gêr sefydlog yn digwydd gyda chawellwyr a physgotwyr sy'n gwneud hyn fel hobi ar gyfer yr un rhywogaethau (Ffigur 3).



Ffigur 3: Y gwrthdaro o ran defnydd morol a nodwyd gan bysgotwyr sy'n defnyddio gêr symudol a gêr sefydlog yn nyfroedd Cymru. HP: cawellwyr hobi, C: cadwraeth, DF: pysgotwyr yn targedu gwahanol rywogaethau, HF: pysgotwyr hobi, D: plymwyr, SF: pysgotwyr yn targedu'r un rhywogaethau, TB: cychod twristiaid, IF: pysgotwyr anghyfreithlon, FR: maes tanio, PB: cychod pleser, DV: datblygu, ES: sector ynni.

